**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **28 Medi 2015**

**Aelod / Swyddog Arweiniol: Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol**

**Awdur yr Adroddiad: Ivan Butler - Pennaeth Archwilio Mewnol**

**Teitl: Adroddiad Archwilio Mewnol - Diogelu Corfforaethol**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar Ddiogelu Corfforaethol a gafodd sgôr sicrwydd 'Isel'.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ar gyfer pob cyfarfod sy'n cynnwys manylion yr adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd. Mae'r rhain fel arfer yn adroddiadau sicrwydd 'Uchel' neu 'Canolig'.

Pan fyddwn yn cyhoeddi neu sgôr sicrwydd 'Isel' neu 'Dim' mewn adroddiad, bydd y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad fel rhan o'i raglen i sicrhau ei fod yn gwbl ymwybodol o'r adroddiad a gallant drafod y gwelliannau sydd i'w gweithredu gyda'r rheolwr perthnasol .

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae'r Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad Archwilio Mewnol ac yn cytuno ar y sicrwydd mae ei angen bod y cynllun gweithredu o fewn yr adroddiad yn cael ei weithredu'n effeithiol ac o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad Archwilio Mewnol llawn wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 i'r adroddiad eglurhaol. Y neges allweddol sy'n codi o'r adroddiad yw, er bod gan y Cyngor fesurau ar waith i reoli diogelu, nid yw'r rhain yn gadarn ac nid ydynt wedi'u hymgorffori ar draws holl swyddogaethau'r Cyngor.

Mae angen i ddiogelu gael ei weld fel maes 'corfforaethol', yn hytrach na dim ond maes ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol neu Addysg, felly mae angen i'r Cyngor godi ymwybyddiaeth drwy lansio'r Polisi

Diogelu Corfforaethol a sicrhau bod ei aelodau etholedig a swyddogion yn cael eu hyfforddi'n ddigonol.

Mae'r adroddiad Archwilio Mewnol yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n codi 12 meysydd i'w gwella. Mae'r Panel Diogelu Corfforaethol wedi cymryd perchnogaeth o'r cynllun gweithredu drwy'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, ac mae camau gweithredu, cyfrifoldebau ac amserlenni wedi eu cytuno i fynd i'r afael â'r holl faterion.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes costau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae'r adroddiad wedi cael ei drafod a'i gytuno gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau a'r Panel Diogelu Corfforaethol

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i amddiffyn plant ac oedolion diamddiffyn, felly gall methu mynd i'r afael â'r cynllun gweithredu a chael trefniadau diogelu cadarn gael goblygiadau difrifol pe bai digwyddiad, yn ddeddfwriaethol ac o ran enw da.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn.